# Trwyddedu Arfau Tanio a Ffrwydron – Cyfle i Wirfoddoli

**Ymunwch â Grŵp Cynghori Trwyddedu Arfau Tanio a Ffrwydron Annibynnol (IAG) Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru a Heddlu De Cymru.**

Mae Grŵp Cynghori Trwyddedu Arfau Tanio a Ffrwydron Annibynnol (FELIAG) Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu De Cymru yn cyflawni rôl hanfodol fel '*cyfaill beirniadol*' mewn perthynas â'n polisïau a'n prosesau. Mae'n ein galluogi i gydgynhyrchu'r gwasanaeth a ddarperir gennym o fewn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Mae'n cynnig fforwm lle y gall aelodau annibynnol o'r gymuned gynnig cyngor yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u profiad byw o faterion trwyddedu arfau tanio a ffrwydron ym maes plismona, a chyfrannu at wneud De Cymru yn lle mwy diogel a chydlynol.

Rôl y Grŵp yw rhoi cyngor anffurfiol ar ein gwasanaeth a chraffu arno'n anffurfiol, gyda ffocws penodol ar sicrhau ein bod yn deall anghenion ein holl gymunedau ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae angen pobl sydd â brwdfrydedd, ymrwymiad a dealltwriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol i'n helpu ar lefel leol, gan weithio gyda'n tri thîm gweithredol ar gyfer Caerdydd a'r Fro, Morgannwg Ganol ac Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Bydd angen ein '*cyfeillion beirniadol*' arnom hefyd i helpu ar lefel strategol gan roi cyngor drwy ein tîm Trwyddedu Arfau Tanio a Ffrwydron, i lywio polisïau lleol.

Bydd angen i aelodaeth FELIAG fod mor gynrychioliadol â phosibl o'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu ac yn unol â'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, mae angen cymorth penodol ar Heddlu De Cymru ar hyn o bryd, gyda'r gwaith o graffu ar ein dull o drwyddedu arfau tanio a ffrwydron a byddem yn arbennig yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan bobl sydd â phrofiad o'r maes hwn.

**Proffil y Rôl**

Fel aelod o FELIAG, bydd eich barn annibynnol yn helpu Heddlu De Cymru i lywio'r gwasanaethau a ddarperir gan yr heddlu ac yn helpu i feithrin cydberthnasau cryfach â'n cymunedau saethu. Byddwch yn cytuno i wneud y canlynol:

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd bob chwe mis fel aelod o'r grŵp.
- Rhoi cyngor annibynnol i'r grŵp am faterion penodol y nodwyd ac y cytunwyd arnynt gan yr Heddlu a'r Grŵp.
- Rhoi arweiniad, dealltwriaeth bersonol a her adeiladol yn adlewyrchu eich safbwynt fel aelod o'r gymuned saethu.
- Rhoi cyngor annibynnol ar faterion sydd o bosibl yn effeithio ar y gymuned yn ardal De Cymru, gan gynnwys polisïau, arferion, gweithdrefnau a digwyddiadau critigol.
- Lle y bo'n briodol, gweithredu fel Cynghorydd Digwyddiadau Critigol Annibynnol ar gyfer yr Heddlu gweithredol (nid yw hyn yn orfodol).
- Cadw cydberthynas waith dda gydag aelodau eraill y Grŵp, staff Heddlu De Cymru ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.
- Ymgymryd ag amrywiaeth ehangach o rolau cynghori o bosibl.

**Manyleb Person**

Rhaid i ymgeisydd sy'n gwneud cais am rôl fel aelod o'r Grŵp fodloni'r meini prawf canlynol:

- Ni ddylai fod ganddo gŵyn agored mewn perthynas â Heddlu De Cymru na Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.
- Ni ddylai fod yn swyddog yr heddlu nac yn aelod o staff yr heddlu yn Heddlu De Cymru na Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, nac unrhyw Heddlu neu Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu arall, sy'n gweithio ar hyn o bryd.
- Rhaid iddo fyw neu weithio yn ardal Heddlu De Cymru.
- Rhaid iddo fod yn barod i fynychu cyfarfodydd yn ardal Heddlu De Cymru.
- Rhaid iddo gael cliriad fetio.
- Rhaid iddo fod yn barod i gyfrannu ei amser, ei egni a'i ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd rheolaidd.
- Bod yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae gwasanaethau plismona yn cael eu darparu.
- Rhaid iddo fod yn barod i weithio'n adeiladol gyda'r Heddlu, ac aelodau eraill y Grŵp.
- Dangos y gallu i wrando ar farn pobl eraill a'i hystyried, gan drin pawb yn deg a chydag urddas a pharch.
- Osgoi rhagfarn a gwahaniaethu, gan ddangos ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol.
- Rhaid iddo gydymffurfio â Chod Moeseg y Coleg Plismona.
- Yn gallu dangos gwybodaeth ymarferol o ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol mewn perthynas â thrwyddedu arfau tanio.

- Rhaid iddo allu ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol a'i rheoli'n briodol.
- Dangos y gallu i gwestiynu, herio, pwyso a mesur materion a mynegi barn gytbwys, resymol a chymesur.

Os ydych yn credu y gallwch helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i blismona yn Ne Cymru, lawrlwythwch y ffurflen gais heddiw:

Ffurflen gais

Os hoffech drafod ymuno â'r Grŵp, cysylltwch â Phil Ashby: phil.ashby@south-wales.police.uk)

Fel arall, e-bostiwch:

Dychwelwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau at: HRCommissioner@south-wales.police.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a gellir ei ddarparu mewn fformatau eraill, gan gynnwys print bras, braille, sain, ac e-bost. Cysylltwch â: HRCommissioner@south-wales.police.uk os hoffech gael unrhyw un o'r fformatau hyn.